Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Clinig SkinDeep, Aberystwyth

Dyddiad yr arolygiad: 13 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83504-007-2



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 14

4. Y camau nesaf .......... 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 17

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o glinig Skindeep, Rhoshendre, Waun Fawr, Aberystwyth SY23 3QH ar 13 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y cleifion yn cael triniaethau mewn lleoliad clinig modern a chroesawgar. Mewn ymateb i'r holiaduron AGIC y gwnaethom eu dosbarthu cyn yr arolygiad, rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a'r triniaethau roeddent wedi'u cael.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd lleoliad y clinig yn fodern ac yn groesawgar
- Rhoddodd y cleifion lawer o adborth cadarnhaol am y staff ac ansawdd y triniaethau a oedd yn cael eu darparu gan y lleoliad.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y triniaethau yn cael eu darparu gan staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol ac roedd system effeithiol ar waith i gasglu, adolygu a chofnodi hanes meddygol y cleifion a'u cydsyniad cyn pob triniaeth. Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser a sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd system effeithiol ar waith i sicrhau bod hanes meddygol y cleifion a'u cydsyniad i driniaethau yn cael eu casglu, eu hadolygu a'u cofnodi
- Trefniadau addas ar gyfer sicrhau diogelwch y laser ac ar gyfer gwaith cynnal a chadw

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Sicrhau bod tystiolaeth o hyfforddiant diogelu yn cael ei chadw ar ffeil ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn wybodus o ran y triniaethau a ddarperir a'i fod wedi llwyddo i gynnal a datblygu dysgu a datblygiad y tîm ehangach.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau priodol ar gyfer cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu parhaus

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom 18 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth a gofal o safon ragorol. Rwyf wedi argymell y salon hwn i lawer o bobl."*
>
> *"Clinigol a hylan iawn. Gwnaeth i mi deimlo'n gyfforddus."*
>
> *"Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn darparu digon o wybodaeth."*

**Diogelu a gwella iechyd**

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn rhoi hanes iechyd a hanes meddygol cynhwysfawr cyn cael eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn cael unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau fod yr hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf ac yn cael eu cydlofnodi gan weithredwr y laser. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi gofyn am eu hanesion meddygol cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

**Urddas a pharch**

Dywedwyd wrthym fod ymgyngoriadau a thriniaethau cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin briodol a gwelsom ardaloedd addas yn y clinig lle gellid cael sgyrsiau â'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael amser i newid cyn ac ar ôl triniaethau a'u bod yn cael tywelion urddas. Nododd y staff eu bod yn ymwybodol o sut i osod y tywel urddas yn briodol yn ystod triniaethau er mwyn cynnal urddas y cleifion yn llawn. Gellir cloi'r ystafelloedd trin er mwyn rhoi mwy o breifatrwydd.

Dywedwyd wrthym y gall y cleifion ddod â chwmni gyda nhw i'r lleoliad, ond na fyddai modd i bobl eraill fod yn bresennol yn ystod y driniaeth am resymau diogelwch. Roedd pob claf yn cytuno'n gryf iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y gwasanaeth.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r cleifion ei darllen i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau o ran triniaethau ac er mwyn iddynt gael manylion am y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a welsom. Roedd pob claf yn cytuno'n gryf fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwrando arnynt.

Nododd dau allan o'r 18 o gleifion a gwblhaodd holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith, a dywedodd y ddau glaf wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Gwelsom fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb, a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau, manteision, a chanlyniadau tebygol y driniaeth dan sylw.

Roedd y ffurflen cydsyniad o safon addas a gwnaethom gadarnhau yn y cofnodion a welsom fod cydsyniad yn cael ei roi cyn y driniaeth gychwynnol ac mewn apwyntiadau dilynol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cwblhau ffurflen cydsyniad cyn cael eu triniaeth a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn unrhyw drafodaethau am eu triniaeth.

**Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, caiff hanesion meddygol y cleifion eu casglu er mwyn sicrhau bod y driniaeth a ddewiswyd ganddynt yn addas.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth o gofnodion o safon dda, a oedd yn ymdrin â phob rhan o daith y claf, cyn ac ar ôl y driniaeth.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r ystafelloedd trin laser wedi'u lleoli ar lawr gwaelod yr adeilad, sy'n helpu i ddarparu gwasanaeth hygyrch i bawb.

Pwysleisiodd y gwasanaeth bod y triniaethau ar gael ac yn cael eu cynnig i bob darpar glaf. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y triniaethau ar gael i bob claf, gan gynnwys cleifion trawsryweddol, gan nodi bod ymgyngoriadau sensitif yn cael eu

cynnal er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu mewn modd sydd wedi'i deilwra at yr unigolyn.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith. Roedd y dogfennau yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer AGIC.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod adborth yn cael ei gasglu ar ôl triniaethau a gwelsom rai enghreifftiau o ymatebion cadarnhaol yr oedd y lleoliad wedi'u cael. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau na chwynion agored i'w nodi.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**

Roedd sticeri profion offer cludadwy (PAT) i'w gweld ar bob darn perthnasol o offer ac roedd yr offer wedi cael ei brofi'n ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau nad oedd angen cynnal gwiriad gwifrau bob pum mlynedd ar adeg yr arolygiad.

Gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac roedd agweddau ar ddiogelwch tân wedi cael eu hystyried mewn asesiad risg ysgrifenedig. Rhaid i'r lleoliad sicrhau y caiff hyn ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn.

Gwelsom fod staff sydd wedi cael eu hyfforddi ar gael ar y safle i helpu gyda materion diogelwch tân a chymorth cyntaf pe byddai angen. Cadarnhaodd y lleoliad fod staff sydd wedi cael eu hyfforddi ar gael yn ystod oriau agor y clinig a bod pecyn cymorth cyntaf o fewn cyrraedd.

Roedd arwyddion diogelwch laser a phreifatrwydd priodol wedi'u harddangos ar ddrws yr ystafell drin er mwyn atgoffa staff ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ystafell yn ystod triniaethau.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd pob ardal o'r gwasanaeth yn lân yr olwg ac roedd pob claf yn teimlo bod y clinig yn 'lân iawn'.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o drefniadau rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys rhestr wirio ddyddiol ar gyfer glanhau'r ystafell drin, glanhau cyfarpar laser a gwelyau rhwng apwyntiadau a glanhau sbectolau cyn eu defnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaredu a chasglu gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd gweithdrefn ddiogelu ar waith i'r staff ei dilyn pe byddai unrhyw bryderon diogelu. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer tîm diogelu'r awdurdod lleol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant diogelu ar gael i ni ei gweld yn syth yn ystod yr arolygiad. Rhaid i'r lleoliad sicrhau y caiff tystiolaeth o hyfforddiant diogelu ei chadw ar ffeil.

Gwnaethom gadarnhau nad oedd unrhyw driniaethau yn cael eu darparu i blant ac ni chaniateir i gleifion ddod â'u plant i'r ardal lle cynhelir triniaethau laser.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Gwnaethom ystyried sut y cafodd y cyfarpar laser a'r ddogfennaeth gysylltiedig eu cynnal drwy gydol y pandemig. Gwnaethom nodi'r canlynol:

- Cafodd gwasanaethau Cynghorydd Diogelu rhag Laserau eu trefnu, a gwnaethom gadarnhau fod contract cyfredol ar waith. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gwybod sut i gysylltu â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau pe byddai angen cyngor ar ddefnyddio'r cyfarpar laser yn ddiogel
- Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu bod yn dal i fod yn addas. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylai sicrhau bod y lleoliad yn cael copi o'r rheolau lleol diweddaraf mewn modd amserol. Cafwyd copi ohonynt yn ystod yr arolygiad.
- Roedd y cyfarpar laser yn cael ei gynnal drwy gontract gwasanaeth ac ni nodwyd unrhyw faterion. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o sut i uwchgyfeirio unrhyw bryderon am y cyfarpar
- Caiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal i sicrhau bod y cyfarpar laser yn dal i fod yn addas.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwelsom dystiolaeth fod y gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriannau laser. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sesiynau hyfforddi a datblygu ychwanegol sy'n cael eu mynychu'n rheolaidd.

Gwnaethom adolygu'r protocolau triniaeth a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu gan weithiwr proffesiynol sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC).

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i bob claf a gweithredwr, a gwnaethom gadarnhau ei fod mewn cyflwr digonol.

Cadarnhaodd y lleoliad fod prawf croen yn cael ei gwblhau cyn darparu unrhyw driniaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn yn ofynnol ar gyfer pob triniaeth, ac roedd y cofnodion a welsom yn cadarnhau hynny.

Roedd gwybodaeth ôl-ofal ysgrifenedig yn cael ei rhoi i'r cleifion er mwyn atal heintiau a hwyluso'r broses wella. Cadarnhaodd y staff eu bod yn rhoi cyngor ar lafar hefyd. Cadarnhaodd pob claf ei fod wedi cael cyngor ôl-ofal a'i fod yn gwybod beth i'w wneud pe byddai'n cael haint. Ni nododd unrhyw gleifion eu bod wedi cael unrhyw adweithiau andwyol yn dilyn triniaethau a gwnaethom gadarnhau yn y cofnodion a

welsom fod unrhyw fân adweithiau yn cael eu cofnodi'n briodol ac yn cael ymateb priodol er mwyn helpu i lywio cyrsiau triniaeth dilynol.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dangosodd staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir ac roeddent yn awyddus i ddatblygu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r tîm ehangach er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y clinig.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd y sampl o gofnodion a welsom yn gynhwysfawr ac yn glir i'w dilyn, ac roedd pob elfen o'r cofnodion yn adlewyrchu taith y claf cyn ac ar ôl y driniaeth. Roedd cofnodion yn cael eu cadw mewn modd trefnus a diogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio gan reolwr cofrestredig AGIC a chaiff ei gefnogi gan un gweithredwr laser ychwanegol.

Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar sampl ohonynt ac ar y cyfan, gwelsom eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth. Roedd y polisïau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o hyd.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod i AGIC amdanynt yn ddiweddar.

Disgrifiodd y broses gwyno a gwelsom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y staff yn cysylltu â'r cleifion i gael adborth yn dilyn eu triniaeth.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Nodwyd gennym y byddai disgwyl i unrhyw aelod newydd o staff gyflawni cyfnod o oruchwyliaeth fel rhan o'r trefniadau sefydlu a hyfforddi, ac yn ddelfrydol y byddai'r aelod newydd o staff yn gweithio tuag at gymhwyster cydnabyddedig.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol, sydd hefyd yn helpu i gymell y staff ac i nodi unrhyw feysydd hyfforddiant pellach y gallai fod eu hangen.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau recriwtio addas ar gyfer cyflogi staff ac ar gyfer adolygu staff yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi priodol a chadarnhad o hyfforddiant cyn darparu unrhyw driniaethau.

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, awgrymir y dylai'r lleoliad sicrhau bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif fanylach os bydd yn gweld cleifion heb unrhyw oruchwyliaeth.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth:

## Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Clinig SkinDeep

**Dyddiad yr arolygiad:** 13 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r lleoliad sicrhau y caiff tystiolaeth o hyfforddiant diogelu ei chadw ar ffeil.** | Rheoliad 16 | - | - | - |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**